**EPT-05-00 (p. 5)**

## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

**Dyddiad:** Dydd Iau 22 Mehefin 2000
**Amser:** 9:15 am – 12:30 pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU: CRYNODEB O GYNLLUN CORFFORAETHOL 2001-02

### CRYNODEB

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, ac sy’n rhan o’r Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru a Lloegr) gorfforaethol yw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae Cynllun Corfforaethol Cymru yn dal ar y gweill. Mae’r papur hwn yn rhoi crynodeb o’r cynnwys, ac yn tynnu sylw at y pwysau ar adnoddau. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 2001-02, yn seiliedig ar y lefel sylfaenol o adnoddau a dderbyniwn ar hyn o bryd gan y Cynulliad a chan gymryd y bydd codiad am chwyddiant a chynnydd mewn ardollau. Yn y papur hwn galwn hyn yn Senario 1. Fodd bynnag, ni fyddai’r lefel adnoddau sylfaenol hon yn ddigon i ariannu ein gwaith hanfodol yn 2001-02 oherwydd bod yn rhaid rhoi sylw i bwysau’n codi o Gyfarwyddebau Ewropeaidd a fydd ynddynt eu hunain yn gofyn am adnoddau sylweddol.

Cyflwynir dwy senario arall yma, a fyddai’n caniatáu i ni wella ein lefelau o wasanaeth a mynd i’r afael â gwaith newydd. Y gost ychwanegol i’r Cynulliad, yn nhermau cymorth grant, fyddai £1m ar gyfer Senario 2. Byddai’r pwysau a nodir yn Senario 3 yn costio cyfanswm o £3.5 miliwn a, gan ein bod ni am gadw’r cynnydd yn y taliadau a godwn mor isel â phosibl, byddai angen ariannu hyn yn gyfan gwbl drwy grant. Credwn y bydd ein cynigion yn dod â manteision sylweddol iawn. Gofynnwn i’r Cynulliad, wrth ystyried ein cyflwyniad, gymryd i ystyriaeth y cyfraniad y gallai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ei wneud at helpu i gwrdd â’r her o greu Cymru well, gan gynnwys nodau cymdeithasol ac economaidd pwysig.

### 1.0 CYFLWYNIAD

Ein prif nod yw gweithredu fel rheoleiddiwr, a gwnawn hyn drwy reolaeth integredig dros aer, tir a dë r. Ceir cyflwyniad byr i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a sut y mae’n cael ei hariannu yn Atodiad 1, sydd hefyd yn cynnwys y cyd-destun ar gyfer ein cynllun. Byddwn yn cynhyrchu Cynllun Corfforaethol i Gymru, sy’n ymdrin yn fwy manwl â’n gweithgareddau a sut y defnyddiwn y grant a gawn gan y Cynulliad nag a wna’r Cynllun Corfforaethol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn y papur hwn, byddwn hefyd yn tynnu sylw at y pwysau allweddol ar yr Asiantaeth yng Nghymru yn y flwyddyn i ddod, ac yn diffinio’r costau a’r manteision o ddarparu gwell lefelau gwasanaeth a gwneud gwaith newydd. Gofynnwn i’r Cynulliad roi ystyriaeth fanwl i’r cyflwyniad hwn.

### 2.0 ADNODDAU

Nodir isod dair senario ariannu, sy’n dangos beth y gallwn ei gyflawni, a beth na allwn ei gyflawni, ym mhob achos:

**Senario 1. Lefel sylfaenol o adnoddau (gyda chodiad am chwyddiant a chynnydd mewn ardollau).**

Byddai hyn yn caniatáu i ni gyflawni ein rhaglen waith a ddatblygwyd i gwrdd â’r targedau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd gylch gwaith eang a phwysig fel rheoleiddiwr amgylcheddol, ac mae pwysau statudol newydd yn datblygu flwyddyn ar flwyddyn. O ganlyniad, ni fyddai’r lefel sylfaenol hon o adnoddau yn ddigonol ar gyfer ein gwaith hanfodol yn 2001-2 gan fod yn rhaid i ni ymateb i bwysau’r Cyfarwyddebau Ewropeaidd. Cyflwynir ein rhaglen sylfaenol, y nodir blaenoriaethau ar ei chyfer yn Atodiad 2, o dan 10 thema:

**Themâu**

| | |
|---|---|
| Ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd | Rheolaeth basn-afon integredig |
| Rheoleiddio diwydiant | Amddiffyn rhag llifogydd |
| Gwella ansawdd aer | Gwarchod y tir |
| Rheoli gwastraff | Rheoli pysgodfeydd dë r croyw |
| Rheoli adnoddau dë r | Hybu bioamrywiaeth |

Ceir crynodeb o’r cynlluniau incwm a gwariant ar gyfer Senario 1 yn Nhabl 1. Byddwn yn parhau i weithredu’n fwy effeithlon, gan arbed £0.7 miliwn bob blwyddyn (2.5% ar grant, 1% ar daliadau a godir). Mae’r lefel sylfaenol yn cynnwys £500,000 o grant ychwanegol a ddarparwyd gan y Cynulliad ar gyfer 2000-1, i ariannu pwysau sy’n codi o ddeddfwriaeth y GE, materion tir llygredig ac Uned Polisi Gwastraff Cymru.

**Tabl 1. Cynlluniau Incwm a Gwariant (Senario 1: lefel sylfaenol o adnoddau)**

| | **1999/00** | **2000/01** | **2001/02** | **2002/03** | **2003/04** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwir** | **Cyllideb** | **Cynlluni-edig** | **Amcan-gyfrif** | **Amcan-gyfrif** |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Rheoleiddio’r diwydiannau prosesu | 2,448 | 2,022 | 2,085 | 2,136 | 2,189 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio sylweddau ymbelydrol | 440 | 541 | 553 | 567 | 581 |
| Rheoleiddio gwastraff | 5,842 | 5,501 | 5,588 | 5,682 | 5,778 |
| Ansawdd dë r | 11,667 | 11,160 | 11,322 | 11,484 | 11,650 |
| Rheoli ac atal llygredd integredig | 0 | 425 | 1,110 | 1,210 | 1,320 |
| Ansawdd tir | 222 | 584 | 593 | 593 | 593 |
| **Diogelu'r Amgylchedd (cyfanswm)** | **20,619** | **20,233** | **21,251** | **21,672** | **22,111** |
| Amddiffyn rhag llifogydd | 14,555 | 16,357 | 15,276 | 15,985 | 17,265 |
| Adnoddau dë r | 14,953 | 16,092 | 16,412 | 16,815 | 17,228 |
| Pysgodfeydd | 3,903 | 3,618 | 3,641 | 3,665 | 3,690 |
| Cadwraeth | 575 | 486 | 485 | 485 | 485 |
| Mordwyo | 179 | 164 | 164 | 164 | 164 |
| Hamdden | 150 | 129 | 129 | 129 | 129 |
| **Rheoli Dë r (cyfanswm)** | **34,315** | **36,846** | **36,107** | **37,243** | **38,961** |
| **CYFANSWM GWARIANT INCWM** | **54,934** | **57,079** | **57,358** | **58,915** | **61,072** |
| Ardollau a thaliadau | 43,021 | 44,506 | 44,785 | 46,342 | 48,499 |
| Grant amddiffyn rhag llifogydd y Cynulliad | 776 | 1,036 | 1,036 | 1,036 | 1,036 |
| Cymorth grant y Cynulliad | 11,037 | 11,537 | 11,537 | 11,537 | 11,537 |
| **CYFANSWM YR INCWM** | **54,834** | **57,079** | **57,358** | **58,195** | **61,072** |

Mae'r ffigurau uchod wedi'u seilio ar y cymorth grant sylfaenol o £11.537m a chodiad o 2.5% mewn taliadau Diogelu'r Amgylchedd, Adnoddau Dë r a Physgodfeydd. Mae'r incwm a gwariant ar gyfer Amddiffyn rhag Llifogydd yn seiliedig ar y rhagamcaniadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd.

**Cyflwyniad i Senarios 2 a 3**

Yn ogystal â'n rhaglen waith bresennol rydym wedi nodi pwysau brys sy'n hysbys i ni ar hyn o bryd. Wrth nodi blaenoriaethau ar gyfer y rhestr hon, rydym wedi rhoi sylw i strategaethau'r Cynulliad (er enghraifft, Gwell Cymru, Cynllun Datblygiad Cynaliadwy drafft) a'n hadroddiad ein hunain ar Gyflwr yr Amgylchedd (Amgylchedd Gweithredol I Gymru). Mae pwysau o'r tu allan i Gymru hefyd, gan gynnwys Cyfarwyddebau

Ewropeaidd a phwysau o du'r llywodraeth ganolog. Ni fyddem yn hoffi i'r lefelau o wasanaeth yng Nghymru fod yn is na'r lefelau yn Lloegr.

Ar ôl pennu blaenoriaethau, rydym wedi llunio dwy senario arall sy'n nodi gwaith blaenoriaethol ychwanegol y gellid mynd i'r afael ag ef pe bai'r adnoddau ar gael. Mae'r senarios hyn yn cynnig gwell rhaglenni gwaith, a'r gallu i fynd i'r afael â gwaith newydd, peth ohono â grym statudol. Mae'r senarios hyn yn rhai cronnus, ond nodir y gwaith <u>ychwanegol</u> yn unig (er enghraifft, pe dewisid Senario 2 yna byddai'r rhaglen yn cynnwys y cyfan o Senario 1 a 2, ond ni fyddai'n cynnwys unrhyw waith a restrir yn Senario 3).

Ar gyfer Senarios 2 a 3, rydym wedi cyflwyno gorolwg byr o gostau, manteision a'r effeithiau pe caent eu gwrthod (Ffigurau 1 a 2), ynghyd â gwybodaeth fanwl (Atodiadau 3 a 4).

**FFIGUR 1: SENARIO 2 (GOROLWG)**

**<u>Costau</u>:** mae angen **grant ychwanegol o £1m**, yn ogystal â chodiad mewn taliadau yn ôl chwyddiant (2.5%) a 2% ar ben hynny.

**Manteision (grant ychwanegol):** byddai'r adnoddau ychwanegol hyn yn ariannu'r cynnydd <u>lleiaf</u> y mae ei angen i gwrdd â'r rhwymedigaethau statudol sy'n codi o dair **Cyfarwyddeb Ewropeaidd** (Rheoli ac Atal Llygredd Integredig, Adar a Chynefinoedd a Fframwaith Dë r). Ceir ffigurau mwy realistig (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Tirlenwi) yn Senario 3. Gallai methiant yma arwain at achos cyfreithiol yn ein herbyn. Byddai adnoddau ar y lefel hon hefyd yn ein galluogi i ymrwymo **bron £0.8m i fynd i'r afael â materion penodol yng Nghymru.** Rydym yn cytuno â phryderon y Cynulliad am **wastraff**. Credwn y dylem gymryd camau mwy positif tuag at ddiogelu'r amgylchedd a datblygu diwydiant trin gwastraff o'r radd flaenaf yng Nghymru. Rydym yn cynnig y dylai traean o'r grant ychwanegol gael ei wario ar waith o'r fath, i helpu mynd i'r afael â gweithgareddau anghyfreithlon ac arferion gwael. Hefyd, oherwydd pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i Gymru, credwn ei bod yn hanfodol fod rhagor o adnoddau'n cael eu neilltuo i fonitro ac i helpu **cynnal ansawdd dë r ymdrochi**.

Er mwyn dod â'n harbenigedd yn nes at y rhai sy'n cael effaith ar yr amgylchedd, rydym yn cynnig tri chynllun newydd: gweithio'n nes gyda Mentrau Bach a Chanolig; cymorth i arfarnu cynaliadwyedd (ar gyfer rhaglenni a ariennir gan Ewrop); a hybu atal llygredd a lleihau gwastraff. Gyda'i gilydd, byddai'r cynlluniau hyn yn ein helpu i wneud **cyfraniad gwirioneddol at gynaliadwyedd.** Ar raddfa leol, mae angen yr adnoddau arnom, fel rheoleiddiwr, i fonitro effeithiau gwaith rheoli ym **Mae Caerdydd** ar yr amgylchedd.

**<u>Manteision (taliadau ychwanegol)</u>:** byddai hyn yn cynyddu'r incwm fel y gellid, er enghraifft, gwneud peth gwaith ar rai o'r prif Gyfarwyddebau Ewropeaidd gan gynnwys y Gyfarwyddeb Tirlenwi, y Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd a newidiadau i Gyfarwyddebau Ewropeaidd yn ymwneud â Rheolaeth Llygredd Integredig.

**Effaith gwrthod Senario 2:** heb yr arian ychwanegol ni fydd dim o'r gwaith hwn yn cael ei wneud, a bydd y Cynulliad mewn perygl o gael ei erlyn. Mae perygl hefyd y bydd anawdd yr amgylchedd yng Nghymru yn is nag yn Lloegr.

**FFIGUR 2: SENARIO 3 (GOROLWG)**

**Costau:** byddai'n rhaid i'r holl bwysau ychwanegol a restrir yma gael eu hariannu'n gyfan gwbl drwy grant gan nad yw'r Asiantaeth yn awyddus i geisio codiadau uwchlaw graddfa chwyddiant a 2%. Byddai hyn felly yn costio cyfanswm o £3.5 miliwn i'r cymorth grant.

**Manteision (grant ychwanegol):** rydym yn tynnu sylw yn arbennig at yr eitemau canlynol.

Mae'r ***costau sylweddol*** o £1.5 miliwn a ddangosir yn erbyn y ***Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd*** yn arwydd o wir faint y gwaith sy'n debygol o'n hwynebu er mwyn cwrdd â'r rhwymedigaethau statudol sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r Asiantaeth yn cynnal trafodaethau gyda'r llywodraeth ganolog ar y mater hwn.

Mae datblygu diwydiant gwastraff o'r radd flaenaf yng Nghymru yn ddyhead y bydd angen ymrwymiad ac adnoddau sylweddol i'w wireddu. Byddem yn rhoi rhagor o adnoddau i ddatrys y ***problemau gwastraff sylweddol*** yng Nghymru, gan gynnwys annog ailgylchu a lleihau gwastraff yn lleol.

Rydym hefyd wedi tynnu sylw at faterion lle, yn ein barn ni, y byddai ***arbenigedd ychwanegol*** yn dod â manteision sylweddol, ac at faterion yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o bynciau amgylcheddol a chyllidol Cymru yn Ewrop a gwella dealltwriaeth y gymuned o bynciau amgylcheddol.

**Manteision (taliadau ychwanegol):** dim taliadau ychwanegol

**Effaith gwrthod Senario 3:** heb yr arian ychwanegol, ni ellir gwneud dim o'r gwaith hwn. Byddai effeithiau gwrthod y lefel hon o gymorth ar gyfer y Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd yn ddifrifol iawn.

Hoffem dynnu sylw at ddau **fater pwysig iawn** sy'n codi o'r Senarios hyn.

- Y lefel o wasanaeth a ystyriwn yn briodol ar gyfer y ***Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd*** yw'r lefel a gynhwysir yn Senario 3. Ein prif rôl, mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb hon, yw adolygu pob caniatâd a roddwyd gennym eisoes a gwneud yn siwr ein bod yn asesu pob caniatâd newydd mewn ffordd a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd safleoedd Natura 2000. Dyma rôl na all ond Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ei chyflawni, ac os nad ymgymerwn â hi bydd yn cyfrannu at fethiant ar ran llywodraeth y DU i weithredu'r Gyfarwyddeb.

- Pryder arall, nad ymdrinnir ag ef yn y senarios, yw ein bod ni wedi colli'r incwm sydd ei angen i weithredu'r ***Rheoliadau Dë r Daear.*** Mae'r golled hon yn deillio o benderfyniad y llywodraeth

ganolog i ddiddymu'r taliadau cynhaliaeth (mewn perthynas â gwaredu dip defaid) a godir ar ffermwyr am gyfnod o 4 blynedd. Mae Cymru yn gartref i chwarter y defaid yn y DU, ac mae hyn yn achosi problem enfawr i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o ran sut i ariannu'r gwaith hwn, a allai gostio hyd at £0.5m. Nid ydym yn dymuno llyncu'r gost hon, nac am iddi gael ei hariannu ar draul ein cynlluniau Senario presennol. Mae'r Asiantaeth yn dal i aros am gynigion y llywodraeth ganolog ar gyfer ariannu'r newid hwn mewn polisi.

## 3.0 CRYNODEB AC ARGYMHELLION

Cyflwynir yma grynodeb o Gynllun Corfforaethol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Rydym wedi dangos sut y gallem helpu'r Cynulliad, sefydliadau eraill, diwydiant a chymunedau lleol i gwrdd â her datblygiad cynaliadwy. Rydym wedi gosod allan yr hyn y gallem ei gyflawni gyda lefel sylfaenol o adnoddau, a'r lefelau gwell o wasanaeth - gan gynnwys peth gwaith hanfodol ychwanegol - y gallem eu cyflawni o dan ddwy senario wahanol. Rydym wedi egluro ein bod, flwyddyn ar flwyddyn, yn gwneud arbedion sylweddol drwy fod yn effeithlon, er mantais i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Gofynnwn i'r Cynulliad, wrth ystyried ein cais, gadw mewn cof y cyfraniad y gallai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ei wneud at gwrdd â'r her o greu Cymru well, gan gynnwys nodau cymdeithasol ac economaidd pwysig.

**ROGER THOMAS**

**Cyfarwyddwr Cymru**

**ATODIAD 1**

## Cyflwyniad i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac sy'n rhan o'r Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru a Lloegr) gorfforaethol yw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Ein prif nod yw *"diogelu a gwella'r amgylchedd a gwneud cyfraniad at sicrhau datblygiad cynaliadwy drwy reolaeth integredig dros aer, tir a dë r"*. Mae gennym amrywiaeth o swyddogaethau'n ymwneud â rheoleiddio, rheoli, monitro a deall yr amgylchedd a'r prosesau sy'n effeithio arno. Rhoddwn gyngor i'r Cynulliad ar ddatblygu a gweithredu nodau a thargedau amgylcheddol, a darparwn gymorth technegol ar gyfer trafodaethau rhyngwladol neu ar gyfer llunio rheoliadau. Credwn y gallwn wneud cyfraniad defnyddiol at ddialog ar faterion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r amgylchedd. Rydym wedi gweithio'n agos â'r Cynulliad wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Datblygiad Cynaliadwy drafft, a gwnawn gyfraniadau ar faterion cymdeithasol ac economaidd.

Yng Nghymru, y Cynulliad sy'n gyfrifol am y cymorth grant a roddir i'r Asiantaeth ac am y fframwaith polisi y mae'n gweithio o'i fewn i gyflawni ei holl swyddogaethau. Yn Lloegr, prif noddwyr yr Asiantaeth yw Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) a'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF). Fodd bynnag, mae angen cysylltiad mwy uniongyrchol â'r cyhoedd a

chwsmeriaid at bwrpas ymgynghori ac i gael adborth rheolaidd ar berfformiad. Mae ein tri phwyllgor statudol yn chwarae rhan allweddol yn y broses hon.

**Cyllid ac Adnoddau**

Daw cyllid Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o gyfuniad o incwm o gynlluniau codi tâl (77%), gan gynnwys ardollau amddiffyn rhag llifogydd a godir ar awdurdodau lleol, a grantiau gan y Cynulliad (23% - £11 miliwn ym 1999/2000). Byddwn yn parhau i weithredu'n fwy effeithlon, gan wneud arbedion o £0.7 miliwn y flwyddyn (2.5% ar grant, 1% ar daliadau a godir).

Gwneir adolygiadau sylfaenol yn rheolaidd o raglenni gwario cyrff cyhoeddus noddedig. Bu'r Asiantaeth yn ei chyfanrwydd yn trafod â'r Weinyddiaeth Amaeth ac Adran yr Amgylchedd, fel rhan o'r Arolwg o Wariant nesaf yn 2000, gan ganolbwyntio ar y cyfnod 2002-03 a 2003-04. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gwneud cynnig bob blwyddyn i'r Cynulliad am grant. Mae'r Asiantaeth hefyd yn trafod â'r llywodraeth ganolog i geisio setliad tair-blynedd ar gyfer cynyddu taliadau yn y dyfodol.

**Cyd-destun ein Cynllun**

Rhoddwyd gwybodaeth amgylcheddol man cychwyn yn ein hadroddiad ar gyflwr yr amgylchedd "Amgylchedd Gweithredol I Gymru" a gynhyrchwyd ym 1999 a chyflwynwyd cynlluniau partneriaeth yn ein 17 o Gynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd (CLlAAau). Mae ein prif nod yn gofyn i ni wneud cyfraniad at sicrhau datblygiad cynaliadwy. Yng Nghymru, rhoddwyd hwb mawr i'r dasg hon gan Gynllun Datblygiad Cynaliadwy drafft y Cynulliad a fydd yn darparu fframwaith newydd ar gyfer datblygu ein strategaeth. Ailadroddodd y ddogfen ymgynghori gysylltiedig y pedwar nod a geir yn Strategaeth Datblygiad Cynaliadwy y DU *"A Better Quality of Life"*. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn dau o'r rhain: diogelu'r amgylchedd a defnydd doeth o adnoddau. Serch hynny, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, bwriadwn hefyd gwrdd â'r ddau nod arall, yn ymwneud â chynnydd cymdeithasol a thwf economaidd.

Yr ydym, er enghraifft, wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Materion Cymreig Tí r Cyffredin ar gyfer eu hymchwiliad i allgau cymdeithasol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cyfrannu at nifer o gynlluniau economaidd gan gynnwys ymgynghoriad y Cynulliad ar ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Datblygiad Economaidd, ac wedi helpu i gynllunio'r defnydd o Arian Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2000-6. Wrth i gynllunio yn y sector cyhoeddus ddatblygu yng Nghymru, ein bwriad, ble bynnag y bo modd, yw sicrhau bod ein nodau ein hunain yn cyd-fynd â nodau ehangach y Cynulliad, a gyflwynwyd yn ei gynllun strategol, *"Gwell Cymru"*.

**Ein Gweledigaeth: newid y pwyslais**

Rydym ar hyn o bryd yn diweddaru ein Strategaeth Amgylcheddol mewn ymgynghoriad â'n noddwyr a buddiannau ehangach. Bydd y weledigaeth hon yn cynnwys cyfres o ddyheadau a fydd yn llywio ein penderfyniadau, blaenoriaethau a'n defnydd o adnoddau. Rydym am adeiladu ar ein harferion presennol fel rheoleiddiwr "teg ond cadarn", ac am hybu pwyslais newydd yn y ffordd y darparwn ein gwasanaethau. Yn arbennig, hoffem: adeiladu partneriaethau; canolbwyntio ein gwaith rheoleiddio mewn meysydd lle mae'r peryglon posibl i'r amgylchedd yn fwy; ymgymryd â mwy o waith dylanwadu ac atal; a hyrwyddo ein safbwynt ar faterion allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd. Credwn y bydd

y strategaeth hon yn ein helpu i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol wrth i ni weithio gydag eraill i sicrhau datblygiad cynaliadwy yng Nghymru. Bydd cyrff cyhoeddus a gwirfoddol, a hefyd diwydiant, amaethyddiaeth a'r Cynulliad ei hun, yn wynebu llawer her yn ystod y cyfnod hwn o newid. Rydym yn awyddus i chwarae ein rhan a helpu meithrin ysbryd newydd o weithio fel tîm yng Nghymru, ar lefel strategol ac o fewn cymunedau lleol, er mwyn trosi'r cyfleoedd hyn yn gynnydd go iawn tuag at y weledigaeth a rannwn.

Dengys y tablau canlynol (sy'n dod o Gynllun Corfforaethol Cymru 2000/2001) hyd a lled ein gweithgareddau yng Nghymru – nid ydynt yn gynhwysfawr.

**Ffigur 1: Ein gweithgareddau fel rheoleiddiwr amgylcheddol**

| **Math o awdurdodiad, caniatâd a thrwydded** | **Nifer mewn grym yn Ebrill 1999** |
|---|---|
| Awdurdodiadau PIR/RSR | 782 |
| Trwydded safle rheoli gwastraff (gweithredol) | 395 |
| Cofrestru cludwr gwastraff | 4,606 |
| Safle rheoli gwastraff wedi'i eithrio | 2,691 |
| Safle ailgylchu metel wedi'i eithrio | 110 |
| Caniatâd arllwys (ansawdd dë r) | 7,101 |
| Tynnu adnoddau dë r | 2,970 |
| Caniatâd traeniad tir | 591 |
| Trwydded wialen (pysgota) | 56,222 |

**Ffigur 2: Monitro'r amgylchedd** (yn ogystal, mae'r Asiantaeth yn monitro safleoedd gwastraff

am nwyon tirlenwi, trwytholchion, dë r daear ac ati, ac ansawdd aer ar safleoedd PIR awdurdodedig)

| **Ystadegyn** | **Nifer ym 1998/99** |
|---|---|
| Nifer y samplau ansawdd dwr a ddadansoddwyd | 53,367 |
| Nifer y dyfroedd dë r ymdrochi CE dynodedig a brofwyd | 68 |
| Hyd afon a arolygwyd am bysgod (km) | 1,296 |

**Ffigur 3: Cynnal a gwella amgylchedd Cymru**

| **Ystadegyn** | **Nifer ym 1998/99** |
|---|---|
| Hyd amddiffynfeydd llifogydd afonol a gynhelir (km) | 3,116 |
| Hyd amddiffynfeydd llanw a môr a gynhelir (km) | 708 |
| Nifer y gwelliannau i gynefinoedd pysgodfeydd | 19 |
| Nifer o bysgod a stociwyd | 285,000 |
| Nifer yr adolygiadau 4-blynedd o awdurdodiadau PIR | 23 |

**ATODIAD 2**

**CRYNODEB O'R GWAITH BLAENORIAETHOL A GYNLLUNIWYD AR GYFER 2001-02**

| **Thema** | **Gwaith blaenoriaethol ar gyfer 2001-02** |
|---|---|
| Ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd | Cynhyrchu safonau allyriant ar gyfer nwy o’r 180 o safleoedd tirlenwi yng Nghymru. |
| Rheoleiddio diwydiant | Darparu sgôr "perygl i’r amgylchedd" ar gyfer pob gwaith diwydiannol a safle gwastraff trwyddedig mawr, fel canolbwynt ar gyfer ein harolygiadau.<br><br>Goruchwylio cyflwyno’r drydedd raglen bum-mlynedd o welliannau i ansawdd a maint dë r afon gan gwmniau dë r. |
| Gwella ansawdd aer | Parhau i leihau allyriannau i’r aer o ffynonellau a reoleiddir gennym i gwrdd â thargedau ansawdd aer y Cynulliad. |
| Rheoli gwastraff | Parhau i hybu lleihau gwastraff drwy Gymru, gan ganolbwyntio ar wastraff a dë r peryglus. |
| Rheoli adnoddau dë r | Gweithredu Strategaeth Adnoddau Dë r Cymru. Dechrau datblygu Strategaethau Rheoli Tynnu Dë r ar gyfer Dalgylchoedd i sicrhau bod adnoddau dë r Cymru yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy. |
| Rheolaeth basn-afon integredig | Defnyddio’r Rheoliadau Dë r Daear i barhau i ddiogelu ansawdd dwr daear rhag dulliau amhriodol o waredu dip defaid. |
| Amddiffyn rhag llifogydd | Gweithredu Targedau Lefel Uchel y Cynulliad, gan gynnwys datblygu Cynlluniau Rheoli Strategol ar gyfer Amddiffynfeydd rhag Llifogydd, a fydd yn ystyried effeithiau posibl newidiadau yn yr hinsawdd a datblygiad cynaliadwy. |
| Gwarchod y tir | Ymchwilio i’r perygl i iechyd dynol a’r amgylchedd, a’r posibiliadau ar gyfer adennill 2-3 safle llygredig segur. |
| Rheoli pysgodfeydd dë r croyw | Parhau â Chynlluniau Datblygu Pysgodfeydd a hybu datblygiad pysgodfeydd pysgod garw a brithyllod brown. |
| Hybu bioamrywiaeth | Parhau i asesu effaith ein trwyddedau presennol ar safleoedd cadwraeth natur pwysicaf Cymru (Natura 2000). |

**ATODIAD 3**

## ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU

## TABL O BWYSAU AR ADNODDAU AR GYFER 2001/2002

**SENARIO 2**

Cyfanswm Cymorth Grant ychwanegol o £1,000k [heb gynnwys Rheoliadau Dë r Daear, colli incwm cynhaliaeth] a chynnydd yn y taliadau a godwn i 4.5% [2% yn fwy na chwyddiant].

| **GOFYNION Y GE** | **£k CGrant** | **£k taliadau** |
|---|---|---|
| Cyfarwyddeb Rheoli ac Atal Llygredd Integredig | 50 | |
| Cyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd - ariannu rhannol | 50 | 50 |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dë r: Cymorth Pellach - ariannu rhannol | 50 | |

| | | |
|---|---|---|
| Dynodiadau Cylchfaoedd Sensitif i Nitradau Newydd | 25 | |
| Cyfarwyddeb Tirlenwi - ariannu rhannol | | 50 |
| Newidiadau i Gyfarwyddebau'n Gysylltiedig â Rheolaeth Llygredd Integredig (Cyfarwyddeb Toddyddion, Cyfarwyddeb Gweithfeydd Hylosgi Mawr, Cyfarwyddeb Uchafsymiau Asideiddio, Cyfarwyddeb Llosgi Gwastraff) - ariannu rhannol | | 50 |
| **CYFANSWM** | **175** | **150** |
| **PWYSAU LLYWODRAETH GANOLOG / CYNULLIAD** | **£k CGrant** | **£k taliadau** |
| Costau sefydlu cynlluniau Moderneiddio Llywodraeth (gan gynnwys gwaith e-fasnach, datblygu safwe) - cynlluniau blaenoriaethol yn unig | 50 | 50 |
| **CYFANSWM** | **50** | **50** |
| **MATERION YR ASIANTAETH - UNIGRYW I GYMRU** | **£k CGrant** | **£k taliadau** |
| Ailwampio Trwyddedau Rheoli Gwastraff Presennol | 135 | |
| Gweithredu yn erbyn Gweithgareddau Gwastraff Anghyfreithlon | 190 | |
| Troseddau Amgylcheddol | 25 | |
| Arolygu Gweithgareddau Gwastraff a Eithriwyd | 50 | |
| Arfarnu Cynaliadwyedd | 50 | |
| Swyddog Cyswllt Mentrau Bach a Chanolig | 40 | |
| Gweithredu Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi (monitro) | 45 | |
| Gweithredu Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi (ymchwilio) | 25 | |
| Cynaliadwyedd ar Waith [Rheolaeth Adnoddau Integredig - cyfuno Lleihau Gwastraff, Atal Llygredd ac Arbed Dë r i greu Strategaeth i Gymru] | 90 | |
| Polisi ar gyfer Ceisiadau Detholedig am Drwyddedau | 50 | |
| Strategaeth i Gymru - llygredd o hen fwyngloddfeydd metel | 25 | |
| Bae Caerdydd | 50 | |
| **CYFANSWM** | **775** | |

| | £k CGrant | £k taliadau |
|---|---|---|
| **CYFANSWM LLAWN** | **1000** | **200** |

**ATODIAD 4**

**ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU**

**TABL O BWYSAU AR ADNODDAU AR GYFER 2001/2002**

**SENARIO 3**

Pwysau ychwanegol yn gofyn am Gymorth Grant pellach o £1,490k

Pwysau ychwanegol yn gofyn am godiadau mewn taliadau ac ardollau sy'n dod i gyfanswm o £2,020k. Sylwer na fydd y codiadau mewn taliadau a geisir gan yr Asiantaeth yn talu am y gwaith hwn.

| GOFYNION Y GE | £k CGrant | £k taliadau |
|---|---|---|
| Cyfarwyddeb Tirlenwi | | 20 |
| Cyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd | | 1490 |
| Ansawdd Aer (diffinio Strategaeth Monitro Ansawdd Aer; effeithiau Epil-gyfarwyddebau Ansawdd Aer Amgylchynol) | | 15 |
| Cyfarwyddebau'n Gysylltiedig â Rheolaeth Llygredd Integredig / Rheoli ac Atal Llygredd Integredig [gan gynnwys Epil-gyfarwyddebau asideiddio ac Ansawdd Aer] | | 25 |
| Meini Prawf Lleiaf ar gyfer Arolygiadau | 15 | 85 |
| Cyfrifoldeb y Cynhyrchwr dros Gerbydau ar Ddiwedd eu Hoes | 15 | |
| Monitro Sylweddau Peryglus (o dan PARCOM) | 160 | |
| Sylweddau Ymbelydrol: Adolygiad o Bolisïau, a Safonau Diogelwch [gan gynnwys Erthygl 37 Ewroatom a'r Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch sylfaenol] | 10 | 30 |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dë r: Paratoi Pellach | | 50 |
| Gorfodi Rheoliadau Dë r Daear a hybu arfer da | 100 | |
| **CYFANSWM** | **300** | **1,715** |
| **PWYSAU LLYWODRAETH GANOLOG / CYNULLIAD** | **£k CGrant** | **£k taliadau** |
| Polisi ar gyfer Ceisiadau Detholedig am Drwyddedau | 50 | |
| Cynyddu Rheoleiddio Eithriadau Gwastraff | | 130 |
| Estyn y Rhestr Lygredd | | 100 |
| Moderneiddio Llywodraeth | 50 | |
| Sylweddau Ymbelydrol: Adolygiad o Bolisïau, a Safonau Diogelwch | | 25 |
| Cyfarwyddeb Llaid Carthion | | 40 |
| Adolygiad o'r Strategaeth Gemegol Ewropeaidd / Strategaeth Gemegol yr Asiantaeth | 30 | |
| **CYFANSWM** | **130** | **295** |
| **MATERION YR ASIANTAETH** | **£k CGrant** | **£k taliadau** |
| Rhwydwaith Monitro Dë r Daear, estyniad pellach | 25 | |
| Arolwg Cynhyrchu Gwastraff Cenedlaethol (2il) | 200 | |
| Ymholiadau Chwilio am Eiddo | 50 | |
| Deddf Cystadleuaeth 2000/Mesur Cyfleustodau | 10 | 10 |
| Datblygu rôl yr Asiantaeth yn yr Awdurdod Masnachu Carbon | 10 | |
| Diwallu Anghenion Gwybodaeth Amgylcheddol yr Asiantaeth | 50 | |
| **CYFANSWM** | **345** | **10** |

| MATERION YR ASIANTAETH - UNIGRYW I GYMRU | £k CGrant | £k taliadau |
|---|---|---|
| Mynd i'r afael â Gweithgareddau Gwastraff Anghyfreithlon – cynnydd mewn lefel gwasanaeth | 100 | |
| Ailwampio Trwyddedau Rheoli Gwastraff – cynnydd mewn lefel gwasanaeth | 45 | |

| | |
|---|---|
| Rheoleiddio'n Well Weithgareddau Gwastraff a Eithriwyd – cynnydd mewn lefel gwasanaeth | 50 |
| Hybu Lleihau ac Ailgylchu Gwastraff | 75 |
| Helpu'r Cynulliad i ddatblygu Strategaeth Egni ar gyfer Cymru | 40 |
| Hybu Busnesau Amgylcheddol ar lefel y Gymuned | 40 |
| Gwella Dealltwriaeth Gymunedol o Faterion Amgylcheddol – gweithio gyda lleiafrifoedd ethnig, cysylltu'r amgylchedd â'r economi, addysg amgylcheddol | 120 |
| Chwarae ein rhan yn Ewrop – codi proffil materion amgylcheddol Cymru | 40 |
| Mynd yn nes at Gymunedau – Camau Cyntaf (ein "ffrynt siop" lleol) | 150 |
| Cydran Gymreig Gwasanaeth Rhyngrwyd NETREG i Fentrau Bach a Chanolig | 30 |
| Cwrdd â'n dyletswyddau cadwraethol (ar gyfer afonydd ychwanegol sy'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a SDGAoedd tebygol eraill o dan yr Ymarfer Cymedroli) | 25 |
| **CYFANSWM** | **715** |

**Troednodyn: Mae yna bwysau eraill a allai godi yn ystod y flwyddyn. Oherwydd yr ansicrwydd, nid ydym wedi'u cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio ein rhaglen. Fe'u rhestrir isod.**

| | |
|---|---|
| Adennill Tir Llygredig (pwysau wrth gefn) | 0 |
| Atal a Rheoli Llygredd Integredig – tan-adennill costau gweithredol (cymhorthdal ffermio) (pwysau wrth gefn) | 0 |
| Strategaeth gwastraff (Cymru a Lloegr) – rolau newydd yr Asiantaeth (pwysau wrth gefn) | 0 |
| Deddf Hawliau Dynol | 0 |
| Dim gofynion darpariaeth ariannol wrth gwblhau trwyddedau gwastraff Deddf Rheoli Llygredd (pwysau wrth gefn) | 0 |
| Mordwyo ar Afon Gwy – cwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd os daw AAC yn awdurdod mordwyo (asesiad iechyd a diogelwch); ynghyd â chwrdd ag unrhyw sialens gyfreithiol – pwysau wrth gefn, £0k | 50 |